C 1932

Cyfres Llanbedr | Ionawr, 1932. | Cyf. 32. Rhif 1.

Profwch bob peth | Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. | Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y Golygydd | Y Parch T. Oswald Williams

— Cynnwys. —

Resolusion Blwyddyn Newydd.
Oddiar y Twr.
Arloeswyr ym myd Crefydd yng Nghymru.
Dr. Evan Jones, Y.H., Y Bryn.
Dyffryn Cletwr Fach.
Priodasau.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi.

Argraffwyd gan J D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—
Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN BAROD Y MIS HWN.

CERDDI RHYDD CYNNAR

(Detholiad o Farddoniaeth Rydd Cynnar XVIeg Ganrif a dechrau'r XVIIeg)

— GAN —

D. LLOYD-JENKINS, M.A.,
Tregaron

Cynnwys y gyfrol ddetholiad helaeth iawn o Gerddi, Carolau, etc., cynnar, nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen.

Pris - - 5/-.

Anfoner pob archeb naill ai i'r AWDUR neu ynteu i—

J. D. LEWIS, SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

CYFRES LLANBEDR. IONOR, 1932. CYF. XXXII. RHIF 1.

Resolusion Blwyddyn Newydd.

(YMGOM RHWNG Y GOLYGYDD A THAU GIMEL).

BRYNHAWN Nadolig, a mi wrthyf fy hun o flaen y tân, dechreuais feddwl am Benderfyniadau y blynyddoedd a fu, waith gwyddwn i mi eu torri bob yr un. Anodd a fuasai gwneud rhestr ohonynt bellach heb sôn am ddim arall. Ar y gair dyna gnoc ar y drws, ond gan ei bod yn drymaidd wedi cinio Nadolig ni thrafferthais ateb y cnocio. Ni ddisgwyliwn neb. Digon gwir fe ddaw ambell un heb ei ddisgwyl, ond tybiwn mai rhyw grwtyn bach wedi anghofio mai Nadolig ydoedd a oedd yno yn gwerthu tocynnau. Ni chadwyd fi mewn pembleth yn hir oherwydd agorodd y drws ohono ei hun, a daeth rhyw henafgwr a thipyn o urddas yn perthyn iddo i mewn ataf gan dynnu cadair at y tân. Gwyddwn ar yr olwg gyntaf nad own wedi ei weld erioed o'r blaen.

" Nadolig llawen," meddwn wrtho, ac yntau yn fy ateb ar ei wên. Ymhen ennyd gofynnais iddo,—

" Wr dieithr, gan eich bod wedi dod yma heb eich gofyn a gaf i wybod o ble y daethoch a phwy ydych ? "

Nid atebodd ar unwaith. Edrychais arno a theimlwn fy mod yn gweld drwyddo. Tybiwn o roi fy llaw arno nad oedd dim yno. Brawychais ychydig ond nid rhyw lawer.

" Na, Meistr Golygydd, nid adwaenwch mohonof ond cerddwn i 'r un llwybrau a chwithau 'slawer dydd. Cerddais droion lwybrau'r Saint o Ram a Lax a Chwmbedw heibio'r Lanlasydd i Gaeronnen ond yr oedd hynny cyn eich geni chwi," meddai dan wenu.

"Rhwydd coelio hynyna," meddwn yn wirion, oherwydd ni welais i garreg ar garreg o Lax, gan ychwanegu na wyddwn i pwy ydoedd o ddynion y byd.

"O, peidiwch trwblu," atebai, gan roi ei law ar fy ysgwydd. Nid oedd pwysau yn y llaw rywsut, ac ni theimlwn ond rhyw naws oer a llaith. Digon gwir yr oedd fy nghroen fel croen gwyddau.

"Pwy ydwyf?" gofynnai iddo ef ei hun. "Ie, wir, pwy yn y byd ydwyf. Glywsoch chwi sôn am Thomas Griffiths (Tau Gimel) hen weinidog Caeronnen?"

"Felly'n wir," meddwn innau, ac nid oedd yn syndod gennyf ei fod yn galw rywsut, mwy na phe buasai gŵr drws nesaf wedi troi i mewn am gloncc. Dyna oedd yn od!

"Sut y mae pethau yng Nghaeronnen?" gofynnai. "Does neb o'r hen frigâd yn aros yno debig iawn. Fe fuasai'n werth i chwi adnabod rhai o'r hen gymeriadau nobl a oedd yno gynt—hen gymeriadau o ruddin na cheir mo'u tebig heddiw. Rwy'n cofio'r capel yn llawn fore Sul ac yr oedd crefydd yn y tir gan' mlynedd yn ôl."

"Can mlynedd yn ôl?", meddwn innau mewn syndod, "y mae yno dipyn o newid debig iawn, ond nid addefaf fod y teidiau gymaint yn fwy crefyddol na ni."

"Ni ddisgwyliaf i chwi addef hynyna oherwydd yr y'ch yn byw yn yr oes bresennol," meddai'n dosturiol ddigon, "ond coeliwch fi, y mae mwy o *sham* mewn crefydd heddiw nag a fu erioed. Ni wneir ymdrech heb sôn am aberth heddiw. Gan mlynedd yn ôl yr oedd yr hewlydd yn ddu o bobl yn tynnu i Gaeronnen a beth amdani heddiw? Rhaid cael eto amseroedd gwael a chaled cyn y daw'r werin yn ôl at Dduw."

Tybiwn innau ei bod yn amser digon gwael a chaled, ond ni ddywedais hynny wrtho. Nid oeddwn yn fodlon ychwaith iddo gollfarnu fy oes innau heb geisio ei hamddiffyn.

"Yr ych yn rhy lawdrwm arnom, Mr. Griffith," meddwn wrtho. "Hyd y gwelaf, y mae'r oes bresennol ymhell ar y blaen i unrhyw oes a fu, a dywedwch a fynnoch, gwella y mae'r byd ond i chwi farnu crefydd fel popeth arall wrth ei hesiamplau goreu. Ni sonir cymaint am grefydd hwyrach, ac nid eir mor aml i gapel ac eglwys, ond rhaid i chwi gydnabod mai tyrru wnae pobl slawer dydd i dŷ Dduw rhag ofn Uffern. Oni agorwn gapelau ac eglwysi yr ym yn cau carcharau, ac oni waeddwn Haleliwia yng nghonglau'r heolydd, fe leddfwn ing a dioddef ffordd y cerddwn. Ni ddywedaf nad oedd cymeriadau ffein slawer dydd, ond a chymryd yr oes gyda'i gilydd y mae'r oes bresennol ymhell ar y blaen."

Ni wnaeth fy ymwelydd dieithr ond gwenu at frwdfrydedd ieuenctid i sefyll i fyny dros ei oes ei hun.

"Machgen i," meddai eilwaith, "y mae ofn arnaf ar waethaf yr ysgolion rhad a'r costau mawr nad yw'r dô bresennol hanner mor ddiwylliedig a'r hên gewri gynt. Addefaf eu bod yn gwybod rhagor ond nid gwybodaeth mo diwylliant. Y mae byd o wahaniaeth rhyngddynt. Credaf i, a gwyddoch chwithau hynny, fod mwy o ddiwylliant yng nghanolbarth y Sir yn y ddeunawfed ganrif nag y sydd yma heddiw. Trowch at y llyfrau a gyhoeddid yr adeg honno, a chewch fod yna gannoedd o'r werin yr adeg honno yn tanysgrifio am bob llyfr newydd."

Yr oedd llawer o wir yng ngeiriau'r hen ŵr, digon o wir i'm gwneud i yn anghysurus.

Gwelaf eich bod yn cydsynio a mi er yn methu addef hynny, ond gadewch i ni brofi y peth mewn ffordd syml. Yr adeg honno cyhoeddid dau lyfr Emynau yn yr un flwyddyn, ac un dyn yn sefyll y golled. Ni cheisir cyhoeddi llyfr Emynau heddiw heb gael enwad neu enwadau cyfan o'r tu ôl iddo, ac wedyn grwgnechir at y golled."

Yr own yn fud a'm tafod yn glynu wrth daflod fy ngenau. Chwelid fy nghestyll fel cestyll tywod ar y traeth gan y nawfed don.

"Gwyddoch i mi gynt gyhoeddi Cylchgrawn bach—*Yr Hanesydd*. Ni bu rhyw lawer o lewych arno, ond mi fy hun oedd yn gyfrifol," meddai'r hên ŵr a balchder yn ei lygad.

"Y mae'r Ymofynnydd yn dal ei dir," meddwn wrtho.

"Digon gwir," oedd ei ateb parod, "ond nid chwi sydd yn sefyll y golled fel yr hen Olygyddion."

Yr oedd yn fy llorio bob cynnig, a minnau heb fedru sefyll fy nhir. Ofnwn ei fod yn gwybod mwy nag a feddyliwn.

"Ewch dros yr hên Ymofynyddion a chymherwch y cedyrn gynt a'r bobol fawr a dysgedig heddiw. Nid oedd ysgolion i'w cael slawer dydd, ond medrai'r hen bregethwyr ysgrifennu Cymraeg gweddol wydn ag ystyried popeth. Ni wneid darganfyddiad yn yr Aifft ac ni cheid gafael mewn hên lawysgrif neu ddarlleniad newydd o adnod na cheid cofnod ohonynt ar dudalennau'r Ymofynnydd," meddai Tau Gimel gyda gwres.

"Chware teg Mr. Griffith," meddwn innau dan wrido, "ni ddylasech feio'r oes am wendidau'r Golygydd."

"Eithaf gwir," oedd ei ateb, "ond ai'r Golygydd gynt a alwai sylw at bob dim newydd—choelia i fawr."

Rhedwn dros restr o'm cynorthwywyr a thybiais mai gwell oedd bod yn ddistaw.

" Y mae Cofiant Dafis Castellhywel gennych," meddai. " Cyhoeddais i hwnyna dros gan mlynedd yn ôl. Fe'i hysgrifennwyd gan hên weinidog Caeronnen ac fe werthodd wrth y cannoedd. Wedi can mlynedd ceir copi yn nifer mawr o gartrefi'r hen Sir."

" Yr oedd Dafis yn ddyn mawr," meddwn innau rhag peidio dweyd dim.

" Nid mwy nag enwad," meddai yntau.

" Beth a olygwch ? " gofynnwn mewn syndod.

Gwenai'r hên ŵr o weld fy syndod a'm pembleth.

" Fe ddwedaf wrthych," meddai mewn tipyn.

" Y mae gweinidog yng Nghaeronnen heddiw eto a Chapelau Undodaidd yn amlach na chynt. Fe gyhoeddodd yntau lyfryn fel finnau. Y mae cyhoeddi llyfrau yn wendid yng ngweinidogion Caeronnen. Ysgrifennodd ef ar Hanes Cynulleidfaoedd Undodaidd Sir Aberteifi. Yr oedd apêl ei lyfr yn lletach a'r diddordeb yn fwy. Sut y bu ? "

Yr oedd iasau oer a thwym ar yn ail yn trydanu i fyny ac i waered yng nghymydogaeth fy asgwrn cefn ers tipyn a disgwyliwn i'r chwys dorri. Ni fynnwn mo'i ateb o chawn lonydd ganddo.

" Dowch," meddai, " faint o brynu a darllain sydd arno ? A fu galw am ail argraffiad ? "

Er cymaint fy siom ni fedrwn lai na chwerthin yn iachus o feddwl am y *bon-fire* mawr fydd yn yr ardd ddechreu'r flwyddyn newydd. Cofiais am fy mwriad i hau pys a ffâ yn gynnar y flwyddyn nesaf a gwyddwn na byddai raid pryderu rhag y rhew wedi'r *bon-fire*.

Awgrymais nad oedd y praw yn deg am nad yr un awdur a ysgrifennodd y ddau lyfr ac na ddylid priodoli colliadau awdur i enwad.

Ni wnaeth yr hên ŵr ond siglo'i ben yn freuddwydiol gan ddweyd " Dowch ymlaen ".

Nid oedd ffordd allan ohoni ond trwy wneud *clean breast* ohoni, chwedl y Sais.

" Faint o brynu, ddywedsoch ? " meddwn, " a beth am ail argraffiad ? Mi ddywedaf y gwir plaen. Nid oes brynu arno ac ni bydd ail argraffiad ychwaith. Y mae'r golled yn *Bumtheg Punt*."

" Beth ? " meddai, ond nid mewn syndod. " Yr own i yn meddwl fod yr oes yn oes ddarllengar ? Ni sieryd hynyna yn uchel iawn amdanynt. Yr y'ch yn camsynied. Nid oes ddarllengar a myfyrgar mohoni ond oes na thraffertha i feddwl gan fod y *Wireless* ar bwys. Beth pe bawn i yn cael Pumtheg Punt o golled ac yn cael hanner coron y Sul am bregethu ? "

Chwarddai'n uchel gan sôn byth a hefyd am Bumtheg Punt o golled.

* * *

O sylweddoli'r golled fe hanner gytunwn ag ef, a throis ato i gyfaddef hynny wrtho ond nid oedd yno. Rhwbiais fy llygaid er gweld a'i ynghwsg ynte ar ddihun yr oeddwn. Gwylltais. Yr oedd y tân wedi mynd lawr a theimlwn fan oer lle gorffwysai'i law ar fy ysgwydd. Edrychwn a oedd awel yn taro arnaf. Ar fy nghyfair yr oedd cadair yn edrych fel pe buasai rhywun newydd godi ohoni. Edrychai'r cyfan yn ddiflas. Yr unig beth *real* oedd y cyfrifon yn fy llaw yn dangos colled o———Bumtheg Punt.

Ail edrychais drostynt. Yr oedd y golled yn aros ac nid oedd dim amdani ond gwneud "*A New Year's Resolution*" chwedl y plant. Gwneuthum un ac ni chredaf y'i torraf ychwaith. Gynt yr oedd rhywbeth yn sanctaidd yn y rhif saith, ac y mae i minnau. Ar ddiwedd y flwyddyn 1932 ymneilltuaf innau o ofal yr YMOFYNNYDD. Byddaf yn rhy brysur, chwedl y plant. yn hela calennig i dalu'r golled. Codais o'm cadair gan chwerthin at fy ffolineb. Meddyliwn am Domos Glyn Cothi yn cael dwy flynedd o garchar am ganu cân. Tybed y caf innau wyliau ar gost y brenin am gyhoeddi llyfr swllt a *reprint* gyda llaw? Amser a ddengys, ac am y seithfed tro dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm darllenwyr gan ddiolch o galon i'r nifer bach o gynorthwywyr a gofyn yn garedig i bawb gofio fy *Resolusion* i.

Oddiar y Twr.

YN ddiweddar, daeth dau lyfr Cymraeg i'm llaw, a roddodd imi fawr fwynhad ac adeiladaeth o'u darllen. Un ydyw "Hanfod Duw a Pherson Crist" gan Wili; y llall "Bannau'r Ffydd" gan y Dr. Miall Edwards. Dwy gyfrol drwchus, o amryw gannoedd o ddalennau, o bris dipyn yn uchel i ddarllenwyr o bocedi ysgafn, ydyw'r ddwy. Nid anturiaeth fechan ar du'r cyhoeddwyr, i ymgymryd â hi yn ddi-ystyriaeth, mo'r anturiaeth o gyhoeddi llyfrau o'r maint a'r pris hyn, mewn iaith na ddeellir mo honi ond gan genedl fechan o rif. Bod cyhoeddwyr o wroldeb digonol i ymgymryd â'r anturiaeth sydd braw y deil yr hên iaith ei thir, ac nad yw'r diddordeb mewn materion diwinyddol wedi llwyr ddarfod.

* * *

Tra adnabyddus ydyw awdur y cyntaf o'r ddau lyfr a ennwyd er's blynyddoedd trwy Gymru oll fel bardd o'r rheng flaenaf. Da iawn y cofiaf ei gadeirio yn Eisteddfod Llanbedr flynyddoedd yn ôl—pa flwyddyn ydoedd, ni fedraf, adeg ysgrifennu, ddwyn i gof. Hogyn ifanc ydoedd bryd hynny; eithr o edrych arno'n sefyll yn hurtaidd ar y llwyfan o flaen torf anferth o bobl, nid anodd ydoedd i sylwedydd gweddol graff rag-weld dyfodol disglair iddo. Trem bell-gyrhaeddol gweledydd a ganfyddwn yn ei lygaid, a syllai, allwn dybied, ar rywbeth ymhell hwnt i orwelion ei amgylchoedd uniongyrchol. Onid cywir y'i bernais? Nid yw manylion ei yrfa farddol yn wybyddus imi; eithr gwn iddo ennill llawryf ar ôl llawryf ynghwrs y blynyddoedd. Ni chofiaf imi, ychwaith ddarllen dim o'i farddoniaeth, belled ag y gwn, gyda'r eithriad o'i "Du Hwnt i'r Llen". Un o'i ddarnau gorchestol—clywais gan feirniaid cymwys mai un o'i ddarnau gorchestolaf—ydyw hwn. Erys ei flas gyda mi hyd heddiw fel amheuthun. A thra sicr ydwyf mai digon hwn i sicrhau nad êl enw'r awdur i dir angof yn fuan iawn. Gallaf ychwanegu, hefyd, bod Gwili yn un o athrawon y Coleg Bedyddiol ym Mangor.

* * *

Athro yng Ngholeg Annibynnol Aberhonddu ydyw awdur yr ail lyfr—"Bannau'r Ffydd." Y mae yntau wedi ennill iddo'i hun safle fel un o ddiwinyddion blaenaf Cymru ei ddydd; ac y mae ei glodydd, ymhell cyn hyn, wedi croesi hwnt i ffiniau Offa. Dyma deitlau rhai o'i lyfrau Cymraeg: "Crefydd a Bywyd"; "Crist a Gwareiddiad"; "Cristionogaeth a Chrefyddau Eraill"; "Llenyddiaeth a Diwinyddiaeth yr Efengylau"; "Esboniad ar Epistol Iago"; "Traethawd ar Drefn Wyddonol", ac eraill llai eu pwys; o'i lyfrau Saesneg, "The Philosophy of Religion"; "Religion in Wales"; ynghyd â nifer luosog o erthyglau yn y ddwy iaith ar wahanol destunau.

* * *

Dau lyfr amserol ydyw'r ddau lyfr a ennwyd—eiddo Gwili ac eiddo'r Dr. Edwards; dau lyfr gwerthfawr hefyd—gwerthfawr, am y dyry'r ddau inni gipolwg gweddol gyflawn ar y meddyliau newydd y sydd eisoes yn ennill sylw ein cenhedlaeth, ynghyd a derbyniad o honynt gan niferoedd cynyddol. Ynddynt hwy, fel yn nifer luosog o lyfrau eraill a ddaw o'r Wasg Saesneg, gwelwn y meddwl ifanc yn raddol ac afrwydd ymryddhau o lyffetheiriau credoau a fu mewn bri cyhyd, ac a ystyrrid fel "y ffydd, yr hon a rodded unwaith i'r Saint." Yn y lenyddiaeth hon, gwelir yn amlwg effeithiau'r deffroad addysgol a nodweddai'r ganrif ddiweddaf.

Nid hwn ydyw'r llyfr cyntaf o natur ddiwinyddol ddaeth o law Gwili. Yn fy llyfyrgell y mae un, sef, "Llin ar lin," a fu'n destun myfyrdod imi am lawer blwyddyn : ac nid yw wedi colli'i flas eto. Rhoddi i'r Cymro yr olwg ddiweddar ar yr H.D.—ei darddiad a'i hanes a'i werth—a wneir yn hwn. Credaf iddo greu tipyn o gyffro adeg ei gyhoeddi (1909). Pe gwnai ei ymddangosiad yn ein dydd ni, nid achosai'r crychyn lleiaf o gyffro, gan fod ei safle yn dyfod yn gyflym yn safle gydnabyddedig gan y genhedlaeth y sydd yn awr. Rhaid priodoli'r cyfnewidiad, i gryn fesur, yn ddiau, i'r llyfr hwn. Llyfr a arloesai dir ac a baratoai'r ffordd a fu. A gwnaeth ei orchwyl yn dra thrwyadl ac effeithiol. O'i ddarllen, daw'n amlwg bod yr awdur, bryd hynny, wedi'i nawsu i fesur mawr gan yr ysbryd newydd a oedd yn araf weithio'i ffordd i sylw a chydnabyddiaeth yn y byd crefyddol. Ac wedi imi ei ddarllen, a phob tro y'i darllenwn, proffwydwn y ceid rhywbeth mwy gwerthfawr eto o law'r awdur ryw ddydd.

* * *

Rhaid oedd aros uwch ugain mlynedd cyn i'r broffwydoliaeth ddod i ben yn y llyfr a ennwyd eisoes. Gwnaethoch chwi, Mr. Gol., gyfeiriad caredig ddigon ato yn un o'ch rhifynnau blaenorol. Rhoisoch, hefyd, grynhodeb o'i gynnwys ; ac afraid ydyw imi, felly, ail-wneuthur hyn. Hawdd oedd deall, o ddarllen a ysgrifenasoch, y'ch bodlonid yn fawr iawn gan ei gynnwys. Nid syndod hyn ; oblegid, nad o ba gyfeiriad bynnag yr edrychir arno, llyfr na all lai na rhoddi bodlonrwydd ydyw. Ni olyga hyn y rhaid i'r darllenydd y dyry'r llyfr fodlonrwydd iddo gytuno â phopeth o'i gynnwys. Medr y gwir ddarllenydd werthfawrogi llyfr hyd yn oed os na fedr lyncu'i syniadau i gyd. Yn wir, i'm tyb i, y mae mwy o flas o ddarllen llyfr a ddyry fynegiad i syniadau croes i eiddo'r darllenydd nag o ddarllen llyfr y cytunir â phopeth y sydd ynddo. Tybiaf ddarllen o honof sylw o eiddo'r diweddar Ddr. Clifford i'r un perwyl.

* * *

Yn fyr, hanes mudiadau diwinyddol yn ystod y tair canrif diweddaf ydyw llyfr Gwili yn bennaf. Maes eang iawn yw'r maes. Maes ydyw, hefyd, na ddarfu i neb anturio'i droedio o'r blaen—o leiaf, i'r un llawnder a llwyredd a manylwch a nodwedda'r llyfr hwn. Nid syndod ydyw i'r awdur fod mor ddistaw y fath ysbaid hir o amser. Nid yn hawdd y gellir dirnad maint y llafur ymchwiliadol a'r amynedd ddi-derfyn y sydd tu ôl iddo. Wyr neb—dim ond ychydig iawn, o leiaf—o'r genhedlaeth bresennol o Gymry fawr iawn am frwydrau diwinyddol y canrifoedd a fu.

Ni theimla neb, bellach, mo'r degwm o'r diddordeb mewn diwinyddiaeth a deimlai'r tadau. A'r perigl ydoedd i'r brwydrau hyn fynd yn llwyr i dir angof. Colled fawr iawn a fyddai hyn ; oblegid, nad beth arall a ellir ei ddywedyd naill ai yn eu ffafr neu'n anffafriol iddynt, atebasant ddiben ardderchog fel cyfryngau datblygiad meddwl ein cenedl—braidd na ellir dywedyd yr unig gyfrwng hyd ymhell yn y ganrif ddiweddaf. Cenedl o ddiwinyddion a fu cenedl y Cymry am o leiaf ddwy ganrif os nad tair. Nid yw felly mwyach : y mae diddordebau eraill wedi disodli diwinyddiaeth, a'i gwthio i fesur mawr i'r cysgodau. Yr oedd mawr alw, felly, am rywun i ymgymryd â'r gorchwyl. A dyma'r gorchwyl wedi'i gwblhau.

* * *

Nid fy mwriad ydyw taflu trem tros gynnwys y llyfr ; gorchwyl anodd a fyddai hynny tu fewn i gwmpas y gofod a ganiateir imi. Sylwais eisioes mai hanes ydyw rhan fawr o hono. Nid fel hanesydd, fodd bynnag, yn unig y daw'r awdur i'n golwg ; daw i'r golwg, hefyd, fel beirniad miniog a chraffus o broblemau newydd ein hoes ni, ac o'r ymgeisiadau a wneir gan awduron cyd-oesol i'w dadrys a thaflu goleu arnynt. A diddorol tu hwnt i fesur ydyw 'i feirniadaethau ; ac edmygadwy ydyw'r ysbryd teg tu cefn i'r beirniadaethau. Beirniada ; eithr mewn ysbryd rhagorol y gwna hynny ; fel nad oes achos i neb gythruddo wrtho oblegid a ddywed Dyna'r ysbryd iawn, onite ? A mwy o hono sy'n eisiau.

* * *

Perthyn un nodwedd i'r llyfr na all y darllenydd Undodaidd o hono lai na sylwi arni, sef, ei ymdriniaeth deg o'r safle a'r mudiad Ariaidd ac Undodaidd yng Nghymru. Peth newydd ydyw hyn ; ie, peth hollol newydd ydyw. Belled ag y gwn i, dyma'r ymgais gyntaf i ddelio'n deg ac mewn ysbryd boneddigaidd a Christionogol â'r mudiad rhyddfrydig yn ei amrywiol agweddau yn ei ddatblygiad graddol i Undodiaeth ein dydd ni. Ni ddylai hanesydd roddi lloches hyd yn oed i'r naws lleiaf o ragfarn enwad a phlaid. Unwaith y syrth i'r amryfusedd hwn, nid hanesydd mo hono mwyach. Ni syrth Gwili iddo gymaint ag unwaith, belled ag y medrais weld ; yn wir, ymddengys fel pe ymegnia i'w ochelyd. Deil y dafol yn gywir o'r dechreu tan y diwedd. Clod iddo ydyw hyn.

* * *

Llyfr ydyw hwn, yn ddiameu, i'm tyb, a bery'n lyfr safonol ar ei destun. Ac eiddunaf iddo'r cylchrediad eang a'r darlleniad manwl a haedda.

D.E.

Arloeswyr ym myd Crefydd Rydd yng Nghymru.

I.—THOMAS PERROT.

("*Tad Arminiaeth yng Nghymru.*" W.J.E.).

YMAE cyffes onest yn iechyd i galon. Ni wn innau ble na phryd y ganwyd Perrot. Ni wn enw ei gartref yn ardal Llanybri. Cerdded wrth ffydd a wnaf oherwydd na adawodd bamffled na phregeth i sôn wrthym am ei syniadau. Y mae'r cyfan, hyd y gwn i, yn fysteri. Gweinidog ac Athro Coleg ydoedd, a dyna bron y cyfan a ellir ei ddywedyd. Medr rhywun ofyn pam ynte y sonir amdano. Nid yw Perrot ddim amgen nag ENW yn hanes Crefydd Rydd yng Nghymru, ond *enw* a mwy o urddas yn perthyn iddo heddiw nag erioed o'r blaen. Tebig yw i enw wedi mynd dros y golwg yn llwch y blynyddoedd a phawb wedi anghofio dros beth y safai, ond fel y mae Cymru yn cael gafael arni ei hun daw enwau'i chymwynaswyr nid yn unig i'r golwg, ond yn annwyl eilwaith iddi. Dyna yw hanes Perrot. Fe fuasai'n ddiddorol ambell dro i wybod dylanwad cyfnod ar ddyn, ac mewn ambell gyfnod caiff "*y dyn*" gyfleu, cyfleu i ddylanwadu ar ei gyfnod, neu gyfleu yn ei gyfnod i hyrwyddo mudiad a gafodd ei ddechreu ym meddwl arall. Hyd y medraf i ei ddeall nid oedd dim yn wreiddiol yn Perrot, onid oes gwreiddioldeb mewn gwneud meddyliau mawr a newydd yn *current coin* ym myd meddwl y dydd. Yr oedd "syniadau amrwd anturus" yn yr awyr, ac *amrwd*, gyda llaw, yw pob syniad o werth ym myd y meddwl. Cyn gynted ag y caledo syniad fel na fedr ddatblygu mwy, *ffosil* yw. Fe faddeuir i mi am chwarae ag enw Perrot. Nid mewn amarch y'i dywedaf, ond er awgrymu lle Perrot ym myd meddwl Cymru. Mewn gair, *parot* ydoedd, yn ail adrodd y "syniadau amrwd anturus" wrth ei fyfyrwyr—syniadau newydd a dieithr, ac mewn ystyr, syniadau mwy dynol y cyfandir a Phrydain. Yn ei swydd fel Athro Coleg (ac fel gweinidog Eglwys, am a wn i) ni thybiodd ei bod yn ddyletswydd arno i fwydo ei fyfyrwyr na'i wrandawyr a llwy, gan gastellu o amgylch y gwirionedd fel na anesmwythid meddwl yr un ohonynt gan syniadau newydd a dieithr y dydd.

Ni ddaeth i Gaerfyrddin ond yn yr amser. Y mae'r flwyddyn 1719 yn bwysig yn hanes Cymru a Lloegr o ran hynny. Dyma'r flwyddyn y pasiwyd y ddeddf a roes ryddid i Anghydffurfwyr wasanaethu'u gwlad heb anafu cydwybod, a diogelwyd yr Ysgolion Ymneilltuol oherwydd mwyach nid oedd raid cymuno'n achlysurol yn Eglwys y Plwyf er cael swydd a pheidio talu dirwy. Dyma

adeg Cynhadledd Salter's Hall a gwrthod y cais i orfodi pob gweinidog Ymneilltuol i arwyddo y Tri Chredo. Yr oedd yn gyfnod o dorri cyffion a'r un adeg daeth Perrot i Gaerfyrddin. Nid oedd gysylltiad rhwng y naill a'r llall o gwbl ond cyn belled ag y mae'r "awr" a'r "dyn" yn cyd-gwrdd yn unol a phlan Duw.

> Darlunia Dr. Tom Richards y camu brâs cyn 1719 pan ddywed,—
> "Ar ben y Goddefiad (1689), y *trusts* Ymneilltuol, y priodi bondigrybwyll mewn tai cyrddau, dyma'r ffieidd-dric hwn yn ail-agor drysau'r corfforaethau i'r Anghydffurfwyr."

Yr oedd yr hen gadwyni o un i un yn mynd a'r Anghydffurfwyr yn talu'n ddrud am y rhyddid, ac fe'u dysgid hefyd na thalai ym Mhrydain i fod yn rhy onest, o safbwynt bydol o leiaf, fel y gwelwyd yn achos Larwood. Ni ddoi Larwood i fyny a gofynion Deddf y Corfforaethau ac nid oedd dim am dani ond gwrthod swydd siryf a thalu dirwy drom am fod ganddo gydwybod. Canfu Anghydffurfwyr â chydwybodau ystwythach nag eiddo Larwood nad oedd modd ysgoi dirwy a chael swydd ond trwy geisio dod i fyny a gofynion y ddeddf drwy gymuno yn achlysurol yn Eglwys y Plwyf. Da i Anghydffurfwyr oedd bod angen eu cefnogaeth ar y Whigiaid yn y trefi mawr a bod Esgobion Isel-Eglwysig a rhyddfrydig, tebig i Burnet, yn nhŷ'r Arglwyddi. Rhwng y naill a'r llall gohiriwyd deddfu tan 1714 pan luniwyd Deddf Sism a ddwedai na chai un gŵr gadw ysgol heb drwydded Esgob, ac ni chai honno heb ei fod wedi cymuno yn yr Eglwys o fewn y flwyddyn. Pe digwyddasai fod yn un o'r Cymunwyr Achlysurol a throi eilwaith i'r hen gonfenticl bach neu ddysgu catecism heblaw eiddo'r Eglwys nid oedd gadw ysgol i fod yn ei hanes mwy. Gohiriwyd y Senedd yng Ngorffennaf a bu farw y Frenhines ar y dydd cyntaf o Awst 1714—y dydd yr oedd Deddf Sism i ddyfod i weithrediad.

Daeth Sior y Cyntaf i'r orsedd, ac yn wyneb yr anesmwytho tan yr wyneb, safodd Anghydffurfwyr o blaid y Brenin a Phrotestaniaeth ac nid oedd deddf Stanhope yn 1719 ond ad-daliad y llywodraeth am gefnogaeth Anghydffurfwyr.

Dyna *fackground* yr hanes yr adeg y daeth Perrot i Gaerfyrddin. Fel yr awgrymwyd eisoes fe'i ganwyd yn ardal Llanybri heb fod ond rhyw wyth neu naw milltir mwy neu lai o dref Caerfyrddin. Nid oedd Eglwys Ymneilltuol Llanybri yn nyddiau Perrot wedi cael amser i fagu traddodiad, rhyddfrydig neu arall, ond dywed yr Archddiacon Tenison yn ei Ymweliad 1710 am Lanybri,—"... William Evans, who has the care of the Seminary of Dissenters at Carmarthen is said to have taken a lease of the Impropriator at the rent of 10/- a year or under * * * by contributions from Presbyterians it was repair'd, for the space of about 10 years, has been kept in repair and made use of for a conventicle * * * Most of the parishioners go to the meeting in the chapelle."

Yr oedd Perrot, ond odid, wedi'i godi yma, ond y mae cryn wahaniaeth barn parthed y man neu'r mannau y'i haddysgwyd. Ni cheir mo'i enw ar restr disgyblion William Evans yn rhestr Eglwysi Annibynnol Cymru nac yn llawysgrif Dr. Williams' Library. Ar y llaw arall yn Hanes Crefydd yng Nghymru gan Peter t. 683 fe geir ei enw fel disgybl William Evans. Awgrymai'r diweddar Brifathro W. J. Evans iddo fod tan James Owen, Croesoswallt a dywed Jeremy ac eraill iddo fod tan Roger Griffith a James Owen. Dyna awgrym Hanes Eg. Ann. Cymru Cyf III. td. 433. Yn Add. Mss. 373 C. (copi ond odid o'r Wilson Mss.) fe geir enw Perrot yn bendant fel disgybl Roger Griffith. Hwyrach fod yr awgrym yn agos i'w le iddo fod dan y tri er na roir mohono heddiw'n gyffredin ond fel disgybl Roger Griffith a James Owen. O leiaf yr oedd wedi cael addysg dda yn rhywle canys dywedir ei fod "yn weinidog dysgedig, cadarn, diwyd a llwyddiannus" (Peter td. 683) a "Mr. Perrot was a good natured man and 'of good learning'." (Trans. Hist. Soc. Vol. IV. P. 4).

Erbyn 1706 yr oedd wedi ymadael a'r Athrofa a cheir hanes ei ordeinio gan Fatthew Henry yn Knutsford y chweched o Awst 1706 i ofalu am Eglwys New Market (Swydd Fflint). Ni wyddis nemor am ddaliadau Perrot ond gwyddom i Eglwys New Market yng ngeiriau'r diweddar Brifathro W. J. Evans "soon developed a progressive character, becoming to several Carmarthen students a stepping-stone to anti-Trinitarian Congregations in England and Wales, that his Carmarthen congregation also passed gradually into Arianism, and that the heterodox tendencies of his pupils had become notorious long before his death." Ymof. td. 157. 1900.

Bu yn New Market tan 1715. O leiaf o 1715 i 1719 yr oedd yn weinidog Eglwys Bromborough, Swydd Caer. (Urwick's Cheshire, td. 87). Ceir paragraff neu ddau yn darlunio'r amgylchiadau gan Gwili yn ei lyfr newydd lle dywed,—"Dichon ei ysgwyd yntau gan ddadl Gwrecsam oddi wrth ei hên ddaliadau, oblegid er na ddywedir dim yn bendant yn erbyn ei uniongredaeth, eto fel y sylwodd rhywun (Enwogion y Ffydd, Dosb. III. t. 92) 'Y mae'n wirionedd hynod yn hanes ei fywyd, y byddai pawb y deuai efe i gyffyrddiad a hwynt yn myned yn Arminiaid, Ariaid, neu Sosiniaid.' * * * Mynnwyd, yn ddiweddar, mai Armin ydoedd Perrot, eithr fe ddywed Joshua Thomas fel hyn: 'Ymddengys fod Mr. Perrot yn cefnogi ochr Dr. Williams ond yr oedd ei ddisgyblion ef, neu rai ohonynt yn cael eu hystyried yn Arminiaid'." (Hanes y Bedyddwyr., argr. B. Davies, t. 378).

Y mae'n rhaid esbonio ychydig ar y paragraff. Gŵyr y mwyafrif rywbeth am y Dr. Williams, a hefyd am ddadl Ecseter, Gwrecsam a Henllan. Pwysleisiai Dr. Crisp a'i ganlynwyr gyfanrwydd y Cyfiawnhad nes ei gyhuddo o wadu rhwymedigaeth y gyfraith

foesol, ond cyhuddent hwythau yn eu tro Dr. Williams a'i ganlynwyr o geisio ail-sefydlu daliadau Eglwys Rhufain o Waith—Cyfiawnder (Work—Righteousness). Ni thorrwyd mo'r ddadl parthed Cyfiawnhad gan y Deugain erthygl namyn un na chan safonau Westminster. Nid oedd athrawiaeth yr Anghydffurfwyr ond athrawiaethau Eglwys Loegr, neu gyffes Ffydd Westminster neu gyffes Savoy neu rywbeth tebig. Fe geisiwyd lawer tro gymedroli rhyw gymaint ar Galfiniaeth, a dyna ond odid yw Baxteriaeth. "Ceisiodd Richard Baxter er mwyn gwneuthur tegwch mwy â chymeriad Duw a hawliau moesol dyn, dorri allan lwybr canol rhwng Calfiniaeth Uchel ac Arminiaeth, ac, od oedd bosibl, gyfuno'r ddwy gyfundrefn. Daliai ef, gyd a'r Calfiniaid, fod nifer penodol wedi eu hethol i iachawdwriaeth yn y cynghorau dwyfol, ac y cedwid y cyfryw yn ddiffael. Eithr daliai hefyd, gyda'r Arminiaid, fod athrawiaeth gwrthodedigaeth yn annheilwng o Dduw, ac yn groes i Reswm. Daliai drachefn i Grist farw, mewn rhyw ystyr, dros bawb, a bod cymaint mesur o ras wedi ei ganiatau i bob dyn ag i beri i'w gadwedigaeth neu ei golledigaeth ddibynnu ar ei ewyllys ef ei hun. * * * Daliai'r gweinidogion hyn—rhai fel Bates, Alsop, Sylvester, Calamy a Daniel Williams—na allai Duw achub dynion, heb roi unrhyw ystyriaeth i'w cymeriad a'u ffydd, ac na allai faddau i bechaduriaid, fel y mynnai Calfiniaid Antimonaidd, heb edifeirwch." (Gwili, td. 29).

Ni chaniata gofod ond i awgrymu'r gwahaniaethau, a gwelir, od i Perrot amddiffyn safle Dr. Williams, ei syniadau yntau.

Yn y Monthly Repository (1806 p. 113) ceir awgrym diddorol. "Charles Winter was attracted to Perrot's Academy (circ., 1724) in preference to Foskett's (Bristol) because the students at Carmarthen 'were more at liberty to think and judge for themselves'."

Ceir yr un awgrymiadau gan Joshua Thomas (p. 185). "Though I was but young at the time of Winter's admission, I remember well the common talk among friends that Mr. Perrot's students inclined against the doctrines that were commonly preached by the Dissenters in Wales. Some of them rejected the doctrine of Election, etc."

Y mae'n amhosibl peidio a thynnu un casgliad—fod Arminiaeth wedi codi pen yn ystod tymor Perrot yn y Coleg. Awgrymai Spinther fod cysylltiad rhwng Ysgol Croesoswallt a'r dadleuon hyn. "Cariodd rhai gŵr ieuainc y rhai oeddent yn ysgol James Owen yng Nghroesoswallt ar y pryd hadau y Sism o Ddyffryn Dyfrdwy i Ddyffryn Teifi ac yn neilltuol i Eglwys Henllan ac wedi hynny i Goleg Caerfyrddin."

Y mae hynyna'n ddigon posibl ond ymddengys fod a fynno Thomas Perrot a dyfod syniadau Arminaidd i Goleg Caerfyrddin.

Nid yn gymaint iddo ef eu dwyn yno ond rhoes chware teg i bob syniad. Cafodd myfyrwyr berffaith chware teg i farnu drostynt eu hunain. Tan athro ceidwadol ni cheid mo'r rhyddid hwn ond cynt neu hwyrach myn syniadau frigo hyd yn oed mewn coleg. Dywed y Prifathro W. J. Evans,—"If he is to be judged by the fruits of his teaching, he was the father of the Arminian Movement in Wales."

Dywed Rees yn ei History p. 272 : "Many, if not the majority, of his students became in course of time the open advocates of Arminian or rather Pelagian sentiments."

Ni wn i a wnawd ymchwil erioed i'r gosodiad hwn. Gellid tybio fod yma drwp o Arminiaid wedi codi fel petris gyda'i gilydd o Gaerfyrddin yn ystod amser Perrot. Dywed y Parch. H. P. Roberts, M.A. yn Trans. of the Unit. Hist. Society, td. 333 seq.

"He removed to Newmarket, Flintshire where he remained till 1718."

Ni charaf y gair "removed." Tybed nad ei ordeinio wnawd yn Knutsford i weinidogaethu yn Newmarket. Ond darllain Urwick's Cheshire ceir ei fod yn Bromborough 1715—1719.

"More than 150 Nonconformist students passed through the Academy, besides many who were prepared for Anglican Orders in the diocese of St. David's."

Y mae'r goreu ohonom yn hepian ond pan welais y frawddeg hon yn yr erthygl,—"The number of students paid from the Presbyterian Fund during Samuel Jones's life was twelve, among whom may be named Jenkin Jones afterwards of Llwynrhydowen" dechreuais gerdded a chamre petrus. Yr oedd Samuel Jones wedi marw rywbryd tua 1697. Digon gwir fe geir rhyw Jenkin Jones ym Mrynllywarch 1691—93 ond nid Jenkin Jones y Llwyn mohono. Fe geir cofnod am dderbyn Jenkin Jones yn 1720 ond ni ddengys y records ei fod yn yr Academi wedi Ebrill 1722. Y mae wedi hepian hefyd am nifer y myfyrwyr. Ar dudalen 37 o'r Trans. am Hydref 1931 y mae ganddo'r nodyn hyn : "A list of Mr. Perrot's pupils. He had about 150 in all." Yna rhydd restr o ryw 44 a'r nodyn hwn yn dilyn : "And as many for the Established Church or more." Ond darllain yn ofalus fe welir fod Mr. Roberts wedi cam-ddarllain ac fod y nodynnau hyn yn torri ei 150 i lawr i'r hanner cyn belled ag y mae hanes Anghydffurfiaeth yn y cwestiwn. Gyda llaw dywed "It is conjectured that Thomas Baddy was educated at Brynllewyrch." Tybed nad oedd o leiaf yn Academi Frankland o 1690—1693 ? Dywed y Prifathro W. J. Evans "The Walsall MS. credits him with 150 pupils, about half of whom were for the Established Church. Of the Sixty Dissenters whose names are known, a considerable number remain untraced."

Dyna'r cant a hanner i lawr i drigain a'r trigain cto i lawr hwyrach yn agos i'r hanner—" a considerable number remain untraced." Y mae enwau rhyw 44 yn y llawysgrif, a drannoeth i'r Nadolig edrychais droion ar y rhestr ac ar eiriau Rees yn ei History a geiriau llawer un ar ei ol " Many, if not the majority, became open advocates of Arminian or rather Pelagian sentiments."

Ni fedraf i fod yn sicr, ond dowch drwy'r rhestr. Fe geir ynddi enwau tri Bedyddiwr ond odid—Rees David*, Charles Winter ac Abel Francis ond datblygu wedyn ymhen blynyddoedd a wnaeth pob un o'r tri. Cyfieithodd Rees David " Gyffes Ffydd y Bedyddwyr " yn 1720 ac yr oedd yn iach yn y ffydd yr adeg honno o leiaf, a blynyddoedd wedi hynny. Bu Abel Francis yn weinidog y Bedyddwyr yn Nyffryn Teifi am ddeng mlynedd mwy neu lai wedi gadael y Coleg, ac nid ymneilltuodd Winter dro hir.

Ceir enw Timothy Davies, Caeronnen, Zachary Davies (os ydyw yr un un a Zechariah Davies of Swanzey—1722—), Samuel Jones Llanddarog, Jos. Griffiths Tewkesbury (a Presbyterian) William Howell Birmingham, Lewis Jones, ord. Llanedi 1734—in sympathy with Arminian School—Thomas Perrot nai'r Athro—David Williams Pwllypant, Daniel Phillips o gerllaw Pwllheli—George Palmer (Henllan) Abertawe, Richard Rees Cefncoed, Samuel Thomas, a Jenkin Jones. Y mae rhyw arlliw Arminiaeth ar y rhain.

O ail fwrw golwg dros y rhestr ceir fod yn aros lawer enw na wyddom ond y nesaf peth i ddim amdanynt fel y'm gorfodir i'r casgliad nad yw'r cyfan ond chwedl. Pe tynnid i ffwrdd ryw hanner dwsin o restr myfyrwyr Perrot gyda'r tri Bedyddiwr ymddangosai y rhelyw yn ddigon diddrwg. Ar hyn o bryd ni fedraf weld fod sail yn y byd—dros ddweyd fod mwyafrif myfyrwyr Perrot yn Arminiaid. (Ni charaf bendantrwydd, ond i'm tyb i ni fedrir profi fod dwsin o fyfyrwyr Perrot yn Arminiaid *yn y Coleg*. Y mae'n amheus iawn gennyf a fedrid fy nhorri i lawr pe gadawn 'yn y coleg' allan. Ymddengys y pentyrrid y cyfan ar Berrot am na fedrid ei esbonio. Ys dywed y Sais, 'Rhoer enw drwg i gi a'i grogi.') Hwyrach fod yna nifer yn cadw meddwl agored a pharchaf goffa Perrot am iddo ddysgu'r myfyrwyr i beidio cau pen y mwdwl yn y coleg. Jenkin Jones a dau neu dri arall a berodd iddo gael yr anair o droi pawb ond odid yn Arminiaid. Hwyrach fy mod yn methu a diolchaf am gael fy nghywiro. Y mae'n bryd wyntellu llawer chwedl a ail-adroddir hyd at ddiflastod.

---

* Ni ddeallaf mo awgrym H.P.R. td. 334 (Trans.) " David Rees (Bapt. Min.) son of Rees David, is mentioned by Dr. Spinther James." Gwelir fod Rees David ei hun yno dan Perrot ond nid ym Mrynllywarch.

Yr adeg yr oedd Arminiaeth, er da neu ddrwg, yn ennill tir yng Nghymru daeth y Diwygiad Methodistaidd a'i apêl at y teimlad. Arweiniodd y genedl i fyd y profiad a'r teimlad a chredaf mai anhêg ydyw dibrisio ei ddylanwad, ond taflodd y genedl yn ôl o leiaf ganrif ym myd y meddwl. Hwyrach i Arminiaeth ddod yn rhy fore pwy wyr? Pwy wyr ychwaith pryd y doem yn ôl fel cenedl gan gerdded ynghyfeiriad rheswm a blaenfynediad onibai i ychydig bach ddal y gannwyll ynghynn dro hir?

Ofer proffwydo na holi cwestiynnau hwyrach, ond mewn hinsawdd mwy Cristionogol a chyda naws mwy hyfryd ym myd crefydd, credaf na omedd neb deyrnged o barch i ŵr a ddysgodd nifer i gadw meddwl agored ar bynciau mawr y dydd. Y mae athrawon pob coleg weithian yn deyrngarol i'r gwir, a chredaf mai y cyntaf o'r Moderniaid ydoedd

Thomas Perrot "Tad Arminiaeth yng Nghymru."

Dyffryn Cletwr Fach.

RHYW ganllath yw'r pellter y sydd o Riw Gwaralltferdre i lawr hyd fin yr afon a gwnaethom hwb a cham a naid dros y llethr serth a chawsom ein hunain wrth geulan y gornant, llam eto dros yr afon i'r ochr aswy iddi, ac wele ni mewn gardd yng nghornel cae'r Efail, tir Castell-hywel. Y mae amryw o hên erddi yn aros yn y dyffryn lle y bu gynt fythynnod ond erbyn heddiw nid oes garreg o honynt i'w gweld yn unman, a diddorol yw talu ymweliad a'r hên *land marks* yma yn achlysurol, ond i ni y mae rhywbeth arbennig yn perthyn i'r fangre hon.

Y mae yma dair sycamorwydden yn gwylio, gallem feddwl, iawnderau rhywun fu'n preswylio, un o honynt yn fawr—praff ac uchelfrig, un llai, a'r lleiaf. Clywir *Oratorio* heb ei bath ym mrigau rhain pan fo'r corwynt yn curo arnynt. Ni fyddai'n iawn dweyd fod yma dair coeden yn tyfu ond cywir fyddai dweyd fod yma dair yn aros heb dyfu modfedd ers trigain mlynedd cyn belled ag y gwelwn ni.

Yr ydym fel pe baem yn teimlo rhyw ddylanwadau cudd wrth rodianna yma yng nghysgod y llwyni a si yr afon. Dyma drigfan Francis Thomas y bardd a'r crythor medrus. Adnabyddid ef yn well yn y dyffryn wrth yr enwau canlynol—Ffranci Ddall, Ffranci Dywyll a'r crythor Dall. Gelwid ef felly am ei fod yn ddall. Blodeuai o gylch 1760 ond ni fachludodd haul ei oes am beth amser wedi hyn.

Mynegir gan un hanesydd ei fod yn ddall er yn saith mlwydd oed. Sonia un arall ei fod yn ddall o'i enedigaeth oblegid na allai agoryd cloriau ei lygaid am eu bod yn anhyblyg, felly yr oedd ef yn gorfod cyfansoddi i'r anweledig canys ni allai weled.

Yr oedd ganddo ast o'r enw Flora yn ei arwain o fan i fan, ac un o'r ffyddlonaf ydoedd. Ni chytunir yn hollol parthed y lle y ganed ef. Cawn gan un hanesydd iddo gael ei eni yn Llanwenog ond mynegwyd i ni gan Thomas Humphreys, un o hên frodorion y dyffryn ar dystiolaeth ei dad mai yn y fan dan sylw y cafodd ei eni a'i fagu, a'i fod, wedi iddo dyfu i oedran gŵr, yn cymdeithasu yn gynnes iawn a Wil Dolfor—hên gymeriad digartref nad oedd yn cael ei gyfrif yn hollol gyflawn o'i ysgwyddau i fyny.

Credwn nad yw y Crythor Dall wedi cael ei le priodol ym mlith y beirdd a flodeuai tua yr un cyfnod ag ef yn y parthau hyn. Yr oedd yn berchen ar feddwl ystwyth a threiddgar, ac ar awen finiog. Y mae ei farddoniaeth yn ddestlus a glân, iaith firain, hapus gyda'r gystrawen a gofalus gyda'r mesur, corfan ac odl. Yr oedd yn gerddor gwych a chrythor medrus yn ogystal a bardd.

Heblaw ei brif-weithiau cyfansoddai rigymau a baledau a gwnai Wil Dolfor eu canu a dywedir fod clust Wil yn clywed y cyfan mewn miwsic a'i fod heb ei ail mewn pitsho tonau cynulleidfaol. Cawn hanes am dano unwaith yn Eglwys Llandysul ar y Saboth pan oedd y gwasanaeth yn mynd ymlaen. Darllenodd yr offeiriad emyn i'w ganu, mesur unarddegau, ebe fe :—

> " Nis gallai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
> Na gwaed y creaduriaid er amled eu rhyw," etc.

Nid oedd yno ddim un mewn brys i ddechreu canu ; cododd Wil ar ei draed gan wneud sŵn distaw yn ei wddf fel ped ymdrechai gael gafael yn y dôn, a meddai rhywun wrtho, " Cana bachan." " Beth ganai " meddai ef. " Cana rywbeth " oedd yr ateb, a dyma Wil yngafael a'r dôn ond yr oedd wedi colli'r emyn ond gwyddai ef am bennill o'r un mesur o waith y Crythor Dall, a dyma'r *emyn* a ganodd,—

> " Mae'n ffein gan 'sgyfarnog gael egin mis Mai,
> Mae'n ffein gan y wiwer gael collen llawn cnau ;
> Mae'n ffein gan wningen gael twll o flaen ci,
> Ond seren wen oleu sydd oreu gen i."

Gwnaed cais i'w luddias rhag mynd ymlaen, ond yn ofer.

Y Sul canlynol aeth Wil i'r Eglwys fel cynt. Mor fuan ag y cafodd ei hun tu fewn iddi daeth yr offeiriad ato a chynhygiodd geiniog iddo am ymneilltuo o'r Eglwys nes bod y gwasanaeth trosodd rhag ofn iddo achosi aflonyddwch yn yr adeilad. Gwrthododd y geiniog ac awgrymodd nad gwerth ceiniog oedd enaid Wil Bach. Aeth i'r Eglwys drachefn ar fore Saboth, ac yr oedd

yn digwydd bod yn Sul Cymundeb yno. Estynnwyd y cwpan i Wil yn llawn o win ac yfodd yntau ef ar amrantiad heb adael diferyn ar ôl. Awgrymwyd iddo mai ei brofi yn unig oedd i fod wrth gymuno. "O," meddai Wil, "yr oeddwn i yn ei yfed i gyd, dros bechodau'r holl aelodau sydd yma."

Wedi marw Flora cyfansoddodd y Crythor Dall, ei pherchen, farwnad iddi ac y mae'r gân hon yn dangos llawer iawn o'i allu fel bardd a chyfansoddwr celfydd :—

"Clywch alarus gofus gân
Gan un mewn egwan agwedd,
O waith marwolaeth Flora lon,
Fe aeth fy mron yn bruddaidd ;
Aml y cawsom ni rybuddion,
O flaen marwolaeth Flora dirion."

Y mae'r gân drwyddi yn cyfeirio at ofergoelion a goleddid gan breswylwyr y dyffryn.

Pwy na sydd wedi darllain ei gân ar "Gyflwr dyn ymhob rhan o'i oes." Y mae'r ffaith ei fod wedi cyfansoddi y fath orchestwaith ymron yn anhygoel. Rhoddwn yma ddau bennill er mwyn i'r darllenydd gael rhyw amgyffred o'i athrylith a'i awen :—

"Mor rhyfedd gyfnewidiol yw
Pob rhan o amser dynol ryw ;
Mae'r oes yn dirwyn yn ddi-ball,
Heb ddydd yn llwyr 'run modd a'r llall."

"Yr olwg glir, a graffai'n lew
A edrych nawr trwy'r niwlen dew ;
A'r tafod ffraeth â bloesgni'n llawn
Fel un heb fedru'r iaith yn iawn."

Dyna ddigon i ddangos rhediad ei feddwl a chraffter ei grebwyll.

Heb fynd allan o gae'r Efail ond wedi symud i fyny i'w ben uchaf yr ydym yn sefyll wrth olion sgubor Castell-hywel lle y trigiannai Daniel Jones. Adnabyddid ef yn well wrth yr enw Daniel Sgubor, Castell-hywel. Gweithiwr cyffredin oedd Daniel. Blodeuodd ychydig amser yn ddiweddarach na'r Crythor Dall. Yr oedd ganddo awen fywiog a chwareugar. Cyfansoddodd lawer rhigwm a baled. Cyfansoddodd gân ar "Ymddiddan rhwng y bardd a'r g'wcw,' ac y mae hon ers cyfnod hir yn eiddo'r werin. Cenid hon trwy bob rhan o Gymru hanner canrif yn ôl. Y mae yn gân ddoniol iawn ac yn profi fod Daniel yn berchen ar lawer iawn o arabedd diniwed. Dyfynnwn ddau bennill o ddechreu'r gân :—

Bardd : O ! Gwcw, O ! Gwcw, ble buost ti c'yd
Cyn dod i'r gym'dogaeth, ti aethost yn fud ;
Ti gollaist dy amser bythefnos ymron,
Ti dd'est yn y diwedd a'th ganiad yn llon.

Gwcw : Mi godais fy aden yn uchel i'r gwynt
Gan feddwl bod yma dair wythnos yn gynt ;
Nid unrhyw gamsyniad, paid meddwl mor ffôl,
Ond oerwynt y Gogledd a'm cadwodd yn ôl.

GLAN GLOWON.

Dr. Evan Jones, Y.H., Y Bryn.

("RHEN DDOCTOR" I BOBL YR ARDAL).

"Rhên Ddoctor," waith dyna'i enw i'r byd,
Ond gŵr bonheddig yn wir i'r bôn ;
Ac am ei galon ni thaw y sôn,
A gwelwn ei eisiau'n fwy o hyd—
"*Rhen Ddoctor a'r galon o aur.*"

"Rhên Ddoctor" er nad ydoedd yn *hen*,
A'r gair cyntaf dipyn yn blaen ;
Tynerai'i eiriau wrth fynd ymlaen,
A'i olwg drwm yn olau gan wên—
"*Rhen Ddoctor a'r galon o aur.*"

"Rhên Ddoctor"—fe'i rhoes ei hun yn llŵyr
I'w waith, a bu i luoedd yn frawd ;
Ni chododd nemor erioed ar dlawd
A gwerin ardal a Duw a'i gŵyr—
"*Rhen Ddoctor a'r galon o aur.*"

"Rhên Ddoctor"—hên scweier gynt y'i cawn
Yn caru miri ei ardal fach ;
O ysbryd llawen a chalon iach—
Difarnais oedd, o ruddin iawn :
"*Rhen Ddoctor a'r galon o aur.*"

"Rhên Ddoctor" oedd yn agos a phell,
Rhyddfrydwr syml a hynny i'r craidd,
Undodwr golau o'r brig i'r gwraidd ;
Fe garai dy Dduw a'r pethau gwell—
"*Rhen Ddoctor a'r galon o aur.*"

"Rhên Ddoctor"— mor wâg y Bryn a bro,
A thlotach ynt o ddynoliaeth driw ;
Nid sôn am Grist ond ceisio ei fyw,
A chystal, wir, ni chaiff ardal dro
"RHEN DDOCTOR A'R GALON O AUR."

HEN GYDNABOD.

Priodasau.

TACHWEDD 7, 1931, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, Mr. Gwilym Evans, Pontfach, Llandysul, â Miss Annie Jane Jones, Felinbele, Pencader. Duw yn rhwydd i'r ddau ar y daith.

AR y 12 o Ragfyr ym Mrondeifi, gan y Gweinidog ac o flaen y Cofrestrydd (Mr. Enoch Davies, Llanbedr), unwyd mewn glân briodas Mr. Reginald Austin, Aberystwyth â Miss Jane Jones, merch hynaf Mr. a Mrs. John Jones, Tanybryn, Pencarreg, Llanbedr. Boed eu hoes bob cam dan heulwen cariad.

Marwgofion.

MEDI 11, 1931, yn 37 mlwydd oed, Mr. Tom Evans, mab Mr. a Mrs. Thomas Evans, Sychbant, Gorrig, Llandysul. Chwyth iawn gan ei gydnabod oedd clywed am farw cynnar Tom. Yr oedd yn un o dymer addfwyn ac ysbryd caredig, a llanwodd ei gylch hyd yr ymylon. Cafodd yntau brofiad hir a chwerw rhyfel, a bu'n garcharor yn yr Almaen am amser, a diau fod y profiad hwnnw wedi effeithio ar ei gyfansoddiad. Bu am dymor yn y Sanatorium yn Nhalgarth, ond ofer y bu pob dyfais, ac ehedodd ei ysbryd at yr Hwn a'i rhoes, gan adael gweddw, rhieni a pherthynasau agos eraill mewn galar mawr. Claddwyd ei ran farwol ym mynwent eglwys Llangeler y dydd Llun dilynol, y Ficer ac eraill yn gwasanaethu.

PRUDDAIDD iawn yw'r gwaith o gofnodi hanes marwolaeth y brawd ieuanc Arthur Hughes Price, yn 18 oed, mab ieuaf Mr. a Mrs. W. Watcyn Price, Penlan, Brynhyfryd, Aberdâr. Bu farw Tachwedd 11eg. Cafodd ei daro'n glaf yn annisgwyliadwy iawn, ac ni fu'n gystuddiol ond am ryw bump wythnos. Er mor fyr oedd ei gystudd gwelwyd fod y diwedd yn agos. Un o ffyddloniaid yr Hen Dy Cwrdd oedd Arthur, ac yr oedd wedi derbyn nifer o lyfrau am ei ffyddlondeb yn yr Ysgol Sul er pan oedd yn blentyn. Cafodd ei anrhegu yn yr un modd yn yr Ysgol ddyddiol a Sirol. Nid oedd neb wedi breuddwydio fod gyrfa Arthur i ddod i ben cyn gynted. Gallasem feddwl nad oedd afiechyd yn agos ato gan mor hoyw ydoedd—gwên ar ei wyneb a sirioldeb yn gloywi ei lygaid yn wastad. Cafodd bopeth oedd yng ngallu'r dynol,—goreu'r meddygon a thynerwch diball y Nurse a'r teulu, a daliodd yntau yn ei sirioldeb a'i londer hyd y diwedd. Yn ystod ei afiechyd dangoswyd y diddordeb mwyaf ynddo, yn yr holi a fu yn ei gylch gan bawb yn yr ardal. Estynnwn i'r teulu ein cydymdeimlad llwyraf yn eu colled a'u hiraeth dwys. Fe welir ei eisieu yn yr Hen Dy Cwrdd ac mae gwacter yma oherwydd "Ymadawiad Arthur" Claddwyd dydd Sadwrn, Tach. 14. Gwelwyd wyth o'i gyfeillion yn *bearers* yn ei angladd—pedwar o Ysgol y Sir a phedwar o'r Hen Dy Cwrdd. Gwasanaethwyd gan y Parchn. T. Jones, Eglwys Fair ac E. R. Dennis.

AR y 27ain o Dachwedd, ar ôl cystudd byr ond caled iawn, bu farw Tom Arthur Kent, Hendy'r Neuadd, yn 24 oed. Gadawodd briod ieuanc a baban, tad, a perthynasau agos eraill, mewn galar dwys o'i golli ; a chydymdeimlir yn fawr â hwynt gan gylch eu hadnabyddiaeth. Tu allan i gylch y perthynasau, hefyd, perodd ei farw mor ifanc a di-rybudd hiraeth mawr i'w gylch eang o gyfeillion. Collodd ei fam pan oedd faban ; a chafodd ei fagu a'i ddwyn i fyny gan ei fam-gu—y diweddar Mrs. Judith Davies, Unity, Capelygroes ; a magwraeth a dygiad i fyny tyner a gofalus iawn

a gafodd ; nid ystyriai hi un aberth yn ormod er ei fwyn ef. Saer o alwedigaeth, yr oedd, ar ôl ei briodas, ychydig gyda blwyddyn yn ôl, wedi cychwyn ar ei gyfrifoldeb ei hun ; ac yr oedd, eisoes, wedi ennill iddo'i hun safle llawn o obaith am lwyddiant ; a diau, pe cai fywyd ac iechyd, y sylweddolid ei obaith ; oblegid, yn ychwanegol at fod yn grefftwr deheuig, yr oedd yn ddyn ifanc a hoffid yn fawr gan bawb a'i hadnabyddai ar gyfrif ei ymroddiad, ei ysbryd llednais, ei wên siriol, a'i siarad di-wenwyn. Ymaelododd yng Nghapelygroes rai blynyddoedd yn ol. Wedi'i ddwyn i fyny megis yng nghysgod y Capel, yn naturiol iawn yr oedd llinynnau tyneraf serch ei galon wedi ymgylymu o gylch y lle i fesur mor fawr, fel nad oedd dim yn ormod ganddo i'w wneuthur er hyrwyddo llwyddiant yr achos. Yn yr addoliad, yn yr Ysgol Sul, yn yr Ysgol Gân, yn nosbarth y plant, bu ef yn ffyddlon—hyd ei farw. Colled fawr iawn ydyw colli dyn ifanc o'i fath ef ; oblegid, pe cai fywyd ac iechyd, nid oes amheuaeth na ddeuai yn golofn gref, ddefnyddiol i'r achos. Daearwyd ei weddillion ym mynwent Capelygroes y dydd Mawrth dilynol ; daeth nifer anarferol o luosog ynghyd fel arwydd o'u parch iddo. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan Mr. Dewi Jones, o Goleg Caerfyrddin ; pregethwyd yn y Capel gan y Parch. D. Evans ; a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A.

Hardd gweld yr hên rieni—ar ôl hir
Chwerw loes yn soddi ;
Ond O ! 'r fath siom, gweld Tomi
Ieuanc, llon, yn nhranc y lli.

Ddoe, Ysgol Sul wnai ddysgu,—neu ynte
Hoff blantos i ganu,
Mae heddiw'n gwâr lefaru—
Ei hardd waith—o'r ddaear ddu.

CRIBYN BACH.

CYWIRO GWALL. — Oherwydd amryfusedd digwyddodd gwall ym marwgôf y tro diweddaf. Dylasem ddywedyd mai mab y Rhydderchlwyd oedd John Davies ac wedi bod yn ffermio Esgercrwys, Llancrwys, am flynyddoedd. Gadawodd heblaw y rhai a enwyd ddwy chwaer a brawd i alaru o'i golli.

Nodion yr Eglwysi.

Ceir Hanes Urdd y Benywod, Ymgom Ddychmygol, etc., yn y nesaf.

TRYSORFA'R MYFYRWYR.—Mae Pwyllgor Trysorfa'r Myfyrwyr am adgofio'r Eglwysi ei fod o'r farn y dylasai myfyriwr dderbyn £1 a'r oll o'i dreuliau teithio am wasanaeth ar y Sul. Deallwn nad ydynt yn cael hyn bob amser. Gofyner i'r myfyriwr faint yw ei dreuliau ac yna taler iddo £1 at swm y treuliau.—E. O. JENKINS.

CASGLIADAU TUAG AT DRYSORFA'R MYFYRWYR.—Hyd y gwyddom, dwy gynulleidfa'n unig sydd wedi danfon eu casgliadau i fewn am y flwyddyn. Hyderwn y gwna pob gynulleidfa eu rhan cyn can ei chyfrifon am 1931.—E.O.J.

Y GRAIG A GELLIONNEN.—Cynhelir Cyfarfodydd "Cynghrair y Benywod" yn wythnosol, a gellir dweyd o barch i'r sefydliad, fod y Benywod yn ddyfal iawn yn paratoi cynal Basâr yn y Gwanwyn.

Da gennym eto ddweyd fod cangen o "Urdd Gobaith Cymru" wedi ei ffurfio yn y lle, a bod nifer yr aelodau yn mynd ar gynydd yn gyflym, a cheir cefnogaeth parod gan lu o gefnogwyr perthynol i'r lle. Mae y plant yn cael pleser mawr wrth ganu Alawon Gwerin Cymru, a chredwn eu bod ar y llwybr iawn i fod yn Gymry pybyr yn y dyfodol. Yn bresennol cynorthwyir gan y canlynol : Y boneddigesau, Ray Bowen, Gwen Jones, Olwen Bowen, Ceinwen Davies ; a chan Mr. Lewis Morgan, Clydach—y Goruchwyliwr. Cyfeillydd yr Urdd ydyw Mr. I. Emrys Hopkin. Mae diolchgarwch pawb yn ddyledus i'r rhai hyn am eu llafur cariadus gyda'r gwaith da hwn.

J. D. Lewis, Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... **7/6** or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... **4/6** or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. **2/6** or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... **1/6** or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

JOHN E. JONES

(CERTIFICATED)

JEWELLER, SILVERSMITH and OPTICIAN,

1, Wind St.,
Llandyssul.

:: Bradford House, Llandyssul ::

FOR FASHIONABLE DRAPERY GOODS.

NEWEST GOODS IN LADIES', GENT'S and CHILDREN'S WEAR NOW IN STOCK.

MOURNING ORDERS IMMEDIATELY ATTENDED TO.

E. LLOYD JONES.

OS YDYCH AM RODDI . .

Anrheg am Ffyddlondeb i'r Ysgol Sul

. . A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

'PERLAU MOLIANT'

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

: : J. D. LEWIS, : :

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.